YSGOL BRYNREFAIL

YR WYTHNOS DRAWSGWRICWLAIDD

DYNIAETHAU

Ar ôl cyflwyniad gan Mr Harri Jones, Pennaeth yr Adran Hanes, bu taith gerdded i ddisgyblion blwyddyn 8 trwy bentref Llanrug hyd gyrraedd Eglwys Llanfihangel yn Rhug I ddechrau ar y gwaith o chwilio am wybodaeth ar rai o'r bobl wedi eu claddu yno.

Dyma griw gyda Mr Elfyn Roberts yn sylwi ar fedd Sir Hugh Rowlands, ganed yn Llanrug ar 6ed o Fai 1828 ac yn aelod o Gatrawd Cymru (Catrawd 41) a ennillod y V.C. ar y 5ed o Dachwedd 1854 ym mrwydr Inker Mann yn rhyfel y Crimea.

Dyma griw o hogiau yn sylwi ar Garreg Goffa Undebwyr y Chwarel a dysgu bod y sawl a gladdwyd yno yn un o sefydlwyr yr Undeb Chwarel Gogledd Cymru ac yn wir yn parhau i fod yn llywydd hyd fu farw.

Ac wrth gwrs, yn gwybod mwy na neb am yr holl hanes gwefreiddiol oedd ar gael oedd Mr Harri Jones a gafodd gynulleidfa gyson